

Prosiect Annibynnol 2024 / Independent Project 2024

Eich Cais / Your Proposal

Ela Vaughan Roberts

2204094

Teitl Greadigol – Enwch eich prosiect gyda theitl greadigol

Creative Title – Name your project with a creative title.

“Rhannu’r Baich”

Pwnc: Dyle hwn enwi yn glir eich maes pwnc a’r cwestiwn mwyaf rydych yn archwilio.

Subject: This should name the subject area and the major question or provocation you wish to explore.

Rwyf yn awyddus i ddefnyddio iechyd meddwl fel canolbwynt fy ngwaith, gan ddangos sut mae gwahanol gyflyrau’n gallu effeithio pobl mewn bywyd dydd i ddydd.

Hoffwn drafod sut gall wahanol gyflyrau amlygu ei hunain mewn ffyrdd llai gweledol na rhai o’r ‘stereoteips’ sydd i’w clywed yn aml wrth drafod iechyd meddwl; yn benodol, hoffwn bortreadu symptomau mewn bywyd dydd i ddydd arferol er mwyn dangos fod unrhywun yn gallu dioddef, ac ysgogi trafodaeth am “normalrwydd” byw gyda chyflwr meddyliol-

Beth yw stad meddyliol ‘normal?’

Byddaf yn defnyddio tri cymeriad o wahanol gefndiroedd i archwilio’r gwahaniaethau o gyflwr i gyflwr. Bydd eu bywydau yn plethu er mwyn rhoi pwyslais ar y ffaith fod pobl yn dioddef yn ddjarwybod i eraill. O ganlyniad, hoffwn archwilio’r cwstiwn canlynol yn y ddrama.

“Pam fod iechyd meddwl yn bwnc llosg/ tabw- pam y stigma o’i amgylch?”

Rwyf bendant yn awyddus hefyd i herio cwestiwn cymdeithasol, sef;

“a oes digon o gymorth a chefnogaeth ar gael i bobl sy’n dioddef o gyflyrau meddwl?”

Dyma gwestiwn amserol a chyfoes, sydd bendant yn gallu ysgogi dadl ddiddorol, ac o bosib newid meddylfryd.

Tros olwg o’ch amcanion: Dyle hwn lefaru eich credoau a’ch amcan ar gyfer eich maes pwnc. Pwy fydd yn elwa – pwy yw’r gynulleidfa dethol?

Overview of aims: This should state your beliefs and goals for your subject. Who could benefit – who is the target audience?

Fy amcan yw ysgrifennu a llwyfanu darn o waith creadigol ar ffurf drama lwyfan, yn amlygu sut gall broblemau iechyd meddwl effeithio pobl mewn gwahanol ffyrdd, a’r sgil effeithiau o beidio rhannu’r baich ag eraill.

Bydd elfennau o fy ngwaith yn adlewyrchu drama gair am air, gan y byddaf yn defnyddio ymchwil trylwyr a hanesion gwir i fy helpu i strwythuro’r darn, ac ysbrydoli cymeriadau.

Yn yr oes sydd ohoni, profir fod iechyd meddwl yn rhywbeth sydd yn effeithio llawer iawn o bobl, felly credaf y bydd y gynulleidfa'n buddio o gael portread realistig o bobl 'normal' yn dioddef o gyflyrau iechyd meddwl.

Mae'n debyg y gall aelodau o'r gynulleidfa unieithu a digwyddiadau'r ddrama; drwy brofiad personol, neu efallai drwy rhywun maent yn adnabod.

Credaf bod angen mwy o gynrychiolaeth eang o broblemau iechyd meddwl arnom yn y celfyddydau- yn enwedig enghreifftiau realistig yn hytrach nag enghreifftiau yn darlunio achosion eithafol o hyd.

O ganlyniad i hyn, credaf bod fy nghynulleidfa darged yn eang iawn, gan fod sawl ffordd i unieithu a neges y ddrama.

Y math o gyflwyniad - sut rydych am wireddu eich prosiect yn greadigol? e.e. *Drama gair am air, monolog, sioe gerdd, sioe ganeuon, sioe ddyfeisiedig.*

Proposed Practical Presentation - how you will you realize the project creatively? e.g. *Verbatim play, monologue, musical, song cycle, devised play.*

Hoffwn gyflwyno drama lwyfan wreiddiol, gyda sawl elfen gair am air.